# Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent

## Cylch Gorchwyl

### Diben

Bydd y Fforwm yn cyfrannu at, yn cynllunio'n strategol, yn monitro ac yn gwerthuso Cynllun Cymraeg mewn Addysg (WESP) Cyngor Blaenau Gwent, i gefnogi targedau Llywodraeth Cymru o fewn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010) Llywodraeth Cymru.

### Cylch Gwaith

Bydd y Fforwm yn rhoi sianel ffurfiol ar gyfer cyfathrebu rhwng Cyngor Blaenau Gwent, yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir a sefydliadau partner eraill a all gydweithio tuag at flaenoriaethau lleol a strategol.

Bydd y Fforwm yn:

- gweithredu fel grŵp ymgynghori, gan gyfrannu at ddatblygu, monitro a gweithredu'r WESP;
- datblygu a monitro cynllun gweithredu lleol;
- monitro'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- monitro darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a phenderfynu fel grŵp ar waith tuag at ddatblygiadau yn y dyfodol; a
- darparu adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn disgrifio cynnydd o ran gweithredu targedau WESP o gymharu â'r amserlen a gymeradwywyd.

### Aelodaeth

Aelodau'r Fforwm fydd yr aelodau 'craidd' dilynol a benodir gan Swyddogion Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent:

- Pennaeth Trawsnewid Addysg a Pherfformiad
- Arweinydd Tîm Trawsnewid Addysg
- Swyddog Ysgolion 21ain Ganrif
- Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Cynhwysiant
- Rheolwr Trafnidiaeth
- Swyddog Cydraddoldeb
- Swyddog Cyfranogiad
- Rheolwr Gofal Plant a Chwarae Blynyddoedd Cynnar
- Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid

Cynrychiolwyr ysgolion:

- 1 cynrychiolydd Pennaeth ysgol gynradd Gymraeg
- 1 cynrychiolydd Ysgol Gyfun Gwynllyw
- 1 cynrychiolydd ysgol cyfrwng Saesneg

Sefydliadau partner:

- Mudiad Meithrin
- RhAG
- Urdd Gobaith Cymru
- Menter Iaith Blaenau Gwent
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Arweinydd Systemau ar gyfer y Gymraeg
- Coleg Gwent
- Iechyd

**Symud Aelodau**

Bydd aelodau'r Fforwm yn peidio bod yn aelodau pan maent yn peidio dal y swydd y daethant yn gymwys drwyddi ar gyfer eu penodi. Ceisir cynrychiolydd arall mewn achosion o'r fath.

**Cyfarfodydd o'r Fforwm**

Bydd y Fforwm yn cwrdd o leiaf deirgwaith bob blwyddyn, unwaith bob tymor academaidd. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd. Rhoddir o leiaf saith diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i aelodau o gyfarfodydd o'r Fforwm, heblaw os bydd argyfwng.

Bydd y tîm Trawsnewid Addysg yn darparu swyddogaeth gefnogi i'r Fforwm gan ddatblygu, casglu a chylchredeg dogfennau perthnasol i aelodau o leiaf saith diwrnod cyn pob cyfarfod ar ffurf electronig, gyda chopïau papur ar gael ar gais.

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Bydd y cadeirydd yn llywyddu dros gyfarfodydd y Fforwm. Caiff y cadeirydd a'r is-gadeirydd eu hethol yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Cynhelir cyfarfodydd cyn-cynllunio gyda'r cadeirydd cyn pob cyfarfod o'r Fforwm.

**Is-bwyllgorau**

Gall y Fforwm sefydlu is-bwyllgorau lle mae angen i ystyried materion neilltuol drwy ddull gweithredu gorchwyl a gorffen. Bydd y Fforwm yn ystyried gwaith is-bwyllgorau o'r fath a byddwn yn gwneud argymhellion fel sy'n briodol.

**Cyfrinachedd**

Ar achlysuron, gellir rhannu gwybodaeth o natur gyfrinachol gydag aelodau'r Fforwm i gynorthwyo dealltwriaeth o'r mater dan drafodaeth. Mae'n rhaid i Aelodau'r Fforwm arsylwi cyfrinachedd gwybodaeth o'r fath.